Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024-2025

## CYNNWYS:


1. Rhagair gan y Cadeirydd
2. Aelodaeth y Panel
3. Ein swyddogaeth
4. Adolygiad o'r Flwyddyn
5. Ein hamcanion ar gyfer 2025-2026
6. Casgliad


## 1. Rhagair gan y cadeirydd

Mae'n bleser gen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ar gyfer 2024-2025. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno'r uchafbwyntiau allweddol a'r heriau yn ystod y flwyddyn a gosod blaenoriaethau craffu'r Panel ar gyfer 2025-2026.

Ffurfiwyd y Panel yn 2012 i herio, craffu a chefnogi gwaith y Comisiynydd Heddlu a Throseddu etholedig ar gyfer Dyfed Powys. Mae'r weledigaeth ar gyfer y Panel yn aros yr un peth, hynny yw sicrhau atebolrwydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae gwaith llywodraethu'r Panel yn aml yn ddi-glod, ond mae'n cael ei werthfawrogi. Bydd y wybodaeth yn helpu darllenwyr i ddeall cyd-destun a chyflawniadau gwaith y Panel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Roedd y prif feysydd ffocws eleni yn cynnwys craffu ar y Praesept Plismona a gynigir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a chefnogi'r Comisiynydd wrth iddo ddatblygu Cynllun Heddlu a Throseddu newydd. Roedd y Panel hefyd yn craffu ar benderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd, perfformiad y

Comisiynydd yn erbyn y Gorchymyn Protocol Plismona a sut mae swyddfa'r Comisiynydd wedi perfformio yn erbyn ei chynllun busnes.

Nodir nodau'r Panel ar gyfer y flwyddyn nesaf 2025-2026 yn yr adroddiad ac mae amserlen dros dro o gyfarfodydd ffurfiol wedi'i sefydlu.



*Yr Athro Ian Roffe (Cadeirydd y Panel)*

## 2. Aelodaeth y Panel

Mae gan y Panel gyfanswm o 14 aelod. O blith y rhain mae 12 yn Gynghorwyr Sir (3 o bob Sir yn ardal yr heddlu) ac mae 2 yn aelodau annibynnol cyfetholedig, a ddewiswyd yn dilyn ymarfer recriwtio cyhoeddus. Mae rhagor o wybodaeth am Aelodau'r Panel ar gael yn Atodiad 2. Mae'r gynrychiolaeth yn darparu ystod o wahanol safbwyntiau o'n cymunedau sy'n bwysig wrth gydnabod ffactorau perthnasol sy'n effeithio ar waith y Comisiynydd a Heddlu Dyfed-Powys.

## 3. Ein swyddogaeth:

Mae swyddogaethau Panel yr Heddlu a Throseddu wedi'u hamlinellu mewn deddfwriaeth ac maent yn cynnwys;

1. Adolygu cynllun heddlu a throseddu'r Comisiynydd.
2. Adolygu cyllideb ddrafft flynyddol y Comisiynydd, a'r pŵer i roi feto ar lefel y praesept.
3. Ymdrin â chwynion penodol ynghylch y Comisiynydd neu ei ddirprwy
4. Craffu ar benderfyniadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd.
5. Adolygu penodiad neu ddiswyddiad y Prif Gwnstabl a phenodiad rhai o staff uwch Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, sef unrhyw Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a Phennaeth Staff y Comisiynydd a'r Prif Swyddog Ariannol.
6. Cynorthwyo'r Comisiynydd i gyflawni ei swyddogaethau statudol.
7. Rhoi adroddiadau neu argymhellion i'r Comisiynydd.
8. Adolygu ymddygiad y Comisiynydd.

Mae'r Panel wedi cynnal hunanasesiad o ran sut y mae wedi cyflawni'r swyddogaethau hyn yn ystod y flwyddyn. Gellir gweld hyn yn Atodiad 1.

**Dyma swyddogaethau statudol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.**

1. Pennu blaenoriaethau Heddlu Dyfed-Powys.
2. Cyhoeddi cynllun yr heddlu a throseddu.
3. Ymgysylltu â chymunedau a chynrychioli llais y cyhoedd ynghylch materion plismona.
4. Gweithio'n agos gyda phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol.
5. Cefnogi dioddefwyr a dwyn pobl gerbron y Llysoedd.

6. Comisiynu gwasanaethau i wneud cymunedau'n fwy diogel a chefnogi pobl sy'n agored i niwed.
7. Penodi'r Prif Gwnstabl a'i ddiswyddo os bydd angen.
8. Ymdrin â chwynion a materion disgyblu yn ymwneud â'r Prif Gwnstabl.
9. Sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol.
10. Pennu cyllideb flynyddol yr Heddlu a lefel y praesept.

**Nid oes gan y Panel, na Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, unrhyw rôl o reoli gwaith plismona gweithredol Heddlu Dyfed-Powys. Cyfrifoldeb y Prif Gwnstabl yw Plismona Gweithredol.**

## 4.**Adolygiad o'r Flwyddyn:**

Cynhaliodd y Panel 5 cyfarfod ffurfiol yn ystod y flwyddyn ym mis Mai 2024, Gorffennaf 2024, Hydref 2024, Ionawr 2025 a Chwefror 2025. Cyfarfu is-grwpiau o aelodau'r panel yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn hefyd i ymgymryd â darnau gwaith manylach.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Panel www.dppoliceandcrimepanel.wales drwy glicio ar y tab 'cyfarfodydd' , y botwm 'dewiswch' ac yna dewis blwyddyn y cyfarfod rydych am chwilio amdano.

Crynodeb o'r Cyfarfodydd

**Mai 2024**

Ystyriodd y cyfarfod hwn benderfyniadau a wnaed gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ei berfformiad yn erbyn y Gorchymyn Protocol Plismona ac

edrychodd ar sut mae'r Comisiynydd yn ceisio darparu heddlu effeithlon ac effeithiol.

**Gorffennaf 2024**

Roedd y cyfarfod hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd a materion stelcian ac aflonyddu.

**Hydref 2024**

Roedd y cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar Gynllun Heddlu a Troseddu newydd y Comisiynydd yn ogystal â throseddau gwledig

**Ionawr 2025**

Roedd y cyfarfod hwn yn canolbwyntio'n unig ar adolygu Praesept yr Heddlu a gynigir ar gyfer 2025-2026.

**Chwefror 2025**

Ystyriodd y cyfarfod hwn faterion fel amddiffyn pobl ifanc agored i niwed rhag criwiau sy'n meithrin perthnasoedd amhriodol, penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd a'i berfformiad yn erbyn y Gorchymyn Protocol Plismona.

## <u>Cwynion yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu</u>

Rhaid i Banel yr Heddlu a Throseddu gofnodi unrhyw gŵyn yn erbyn y Comisiynydd sy'n dod i law. Fodd bynnag, dim ond pwerau cyfyngedig iawn sydd gan y Panel i ddelio â'r cwynion hyn ac ni all 'ymchwilio' i unrhyw gŵyn a wnaed. Mae'n ofynnol i'r Panel gyfeirio unrhyw gŵyn ddifrifol (h.y. cwyn am gamymddwyn troseddol) i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) ac nid oes ganddo'r pŵer i orfodi'r Comisiynydd i gymryd unrhyw gamau adferol mewn perthynas â chwyn. Yr hyn y gall y Panel ei wneud yw ceisio datrys yn anffurfiol.

During the year the Panel recorded two complaints against the Police and Crime Commissioner from members of the public. These were considered in accordance with the Panel’s complaints protocol, and it was resolved to take

no further action in relation to any of them as they were not suitable for informal resolution by the Panel and no meaningful outcome was likely.

## Blaenoriaethau'r Panel ar gyfer 2024-2025

Yn ei adroddiad blynyddol diwethaf, nododd y Panel 2 flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn ganlynol, yr oedd pob un ohonynt yn ymwneud â swyddogaeth statudol y Panel. Ein blaenoriaethau ar gyfer 2024-2025 oedd

| BLAENORIAETH 1 | AMCAN | BETH WNAETHOM NI? | CANLYNIAD |
|---|---|---|---|
| Craffu ar Braesept yr Heddlu | Sicrhau bod arian Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cael ei reoli'n briodol a bod Praesept yr Heddlu'n rhoi gwerth am arian i drigolion Dyfed-Powys | Adolygwyd y cyfrifon diwedd blwyddyn.<br><br>Holi'r Comisiynydd yn ffurfiol am y cyfrifon hynny.<br><br>Cael sesiwn briffio gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Swyddog Ariannol am sefyllfa ariannol Heddlu Dyfed-Powys a'r galw sydd arno.<br><br>Derbyn gwybodaeth ynglŷn â sawl llinell allweddol o ymholiad sy'n ymwneud â staffio, ystadau a gwasanaethau a gomisiynwyd.<br><br>Gwneud ymchwil annibynnol.<br><br>Cynhaliwyd gwrandawiad i ystyried y praesept arfaethedig | Cymeradwyodd y Panel gynnydd praesept arfaethedig y Comisiynydd o 8.6% yn y praesept. Roedd y Panel yn fodlon bod y cynnydd hwn yn deg ac yn briodol gan ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol |

| BLAENORIAETH 2 | AMCAN | BETH WNAETHOM NI? | CANLYNIAD |
|---|---|---|---|
| **Cefnogi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i ddatblygu Cynllun Heddlu a Throseddu.** | Cefnogi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i ddatblygu Cynllun Heddlu a Throseddu newydd ar gyfer Dyfed-Powys yn dilyn etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ym mis Mai 2024 | Hyrwyddo'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd gan y Comisiynydd ac annog cyfranogiad y cyhoedd.<br><br>Cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad yn nodi barn y Panel ar yr hyn y dylai cynllun yr Heddlu a Throseddu ei ddweud.<br><br>Adolygu cynllun terfynol y Comisiynydd yn unol â'r gofynion statudol. | Roedd y Panel yn fodlon bod Cynllun yr Heddlu a Throseddu a fabwysiadwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn diwallu anghenion pobl Dyfed-Powys. |

Cyflawnwyd y blaenoriaethau hyn gan is-grwpiau o Aelodau'r Panel. Cyflawnwyd Blaenoriaeth Un gan yr Is-grŵp Cyllid a Blaenoriaeth Dau gan yr Is-grŵp Perfformiad. Gellir gweld aelodaeth yr Is-grwpiau yn Atodiad 3.

## 5. EIN BLAENORIAETH AR GYFER 2025-2026

Mae'r Panel wedi penderfynu canolbwyntio ei waith ar ddwy flaenoriaeth yn 2025 – 2026 fel a ganlyn.

| BLAENORIAETH 1 | AMCAN | BETH FYDDWN YN EI WNEUD | CANLYNIAD BWRIADEDIG |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Craffu ar Braesept yr Heddlu** | Sicrhau bod arian Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cael ei reoli'n briodol a bod Praesept yr Heddlu'n rhoi gwerth am arian i drigolion Dyfed-Powys | Holi'r Comisiynydd yn gyhoeddus am y materion hyn a gofyn am wybodaeth berthnasol ganddo.<br><br>Cael sesiwn briffio gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'i Brif Swyddog Ariannol am sefyllfa ariannol Heddlu Dyfed-Powys a'r galw sydd arno.<br><br>Gwneud ymchwil annibynnol.<br><br>Cynnal gwrandawiad i ystyried y praesept arfaethedig | Bod lefel y praesept a osodir ar gyfer 2026-2027 yn briodol o ystyried yr holl amgylchiadau.<br><br>**Dyddiad Targed– Chwefror 2026** |

| BLAENORIAETH 2 | YR AMCANION | BETH FYDDWN YN EI WNEUD | CANLYNIAD BWRIADEDIG |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Craffu ar y modd y mae'r Comisiynydd yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif a'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith er mwyn gwneud hyn.** | Bodloni ein hunain bod y trefniadau llywodraethu sy'n cael eu gweithredu gan y Comisiynydd yn briodol ac yn hwyluso'r broses o ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif | Byddwn yn adolygu'r trefniadau llywodraethu a fabwysiedir gan y Comisiynydd ac yn eu cymharu â'r rhai a fabwysiedir gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu eraill.<br><br>Byddwn yn ystyried y wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus am weithrediad y trefniadau hynny.<br><br>Lle y bo'n bosibl, byddwn yn ceisio arsylwi ar weithrediad y trefniadau hynny.<br><br>Os oes angen, byddwn yn gofyn i'r Comisiynydd roi rhagor o wybodaeth am weithrediad y trefniadau hynny. | Bod y Panel yn gallu dod i gasgliad ynghylch a yw'r trefniadau y mae'r Comisiynydd yn eu gweithredu yn briodol ac yn gweithio'n dda. |

Yn ogystal â'r blaenoriaethau hyn, bydd y Panel hefyd yn:

- Craffu ar yr holl benderfyniadau allweddol a wneir gan y Comisiynydd gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â gwasanaethau a gomisiynir.
- Monitro'r modd y mae'r Comisiynydd yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif.
- Monitro perfformiad y Comisiynydd yn erbyn y Gorchymyn Protocol Plismona
- Gofyn i'r Comisiynydd roi adroddiad cynnydd manwl ynghylch gweithredu ei flaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throseddu

## 6. CASGLIAD

Mae 2024-2025 wedi bod yn flwyddyn brysur arall ac rwy'n ddiolchgar i'm cyd-aelodau, y Gomisiynydd a'i staff am y dull cadarnhaol a chydweithredol y mae pob un ohonynt yn ei fabwysiadu.

Yr Athro Ian Roffe (Cadeirydd)

# ATODIAD 1 – PERFFORMIAD Y PANEL

Mae'r Panel wedi neilltuo sgôr RAG (Coch /Oren /Gwyrdd) i bob un o'i swyddogaethau. Lle nad oedd yn ofynnol i'r Panel gyflawni swyddogaeth benodol yn ystod y flwyddyn nid yw wedi cael sgôr RAG.

Mae'r graddfeydd yn cael eu cymhwyso fel a ganlyn.

COCH - Lle bu'n ofynnol i'r Panel gyflawni swyddogaeth ond nad yw wedi gwneud hynny.

OREN - Lle bu'n ofynnol i'r Panel gyflawni swyddogaeth a'i fod wrthi'n gwneud hynny.

GWYRDD - Lle bu'n ofynnol i'r Panel gyflawni swyddogaeth ac mae wedi gwneud hynny.

| **SWYDDOGAETH** | **SGÔR** | **SYLW** |
|---|---|---|
| Ystyried y praesept | GWYRDD | Trafododd y Panel y praesept ym mis Ionawr 2025 a chymeradwyodd y cynnydd a gynigiwyd gan y Comisiynydd |
| Adolygu penodiadau penodol gan y Comisiynydd | Amh. | Ni fu angen i'r Panel gyflawni'r swyddogaeth hon yn ystod y flwyddyn. |
| Ystyried diswyddo'r Prif Gwnstabl | Amh. | Ni fu angen i'r Panel gyflawni'r swyddogaeth hon yn ystod y flwyddyn. |
| Adolygiad o'r Cynllun Heddlu a Throseddu | GWYRDD | Gwnaed hyn ym mis Hydref 2024 |
| Adolygiad o Adroddiad Blynyddol y Cyngor | GWYRDD | Gwnaed hyn ym mis Gorffennaf 2024 |
| Derbyn adroddiadau a gwybodaeth gan y Comisiynydd | GWYRDD | Derbyniwyd adroddiadau ym mhob un o bum cyfarfod y Panel |

| | | |
|---|---|---|
| Presenoldeb y Comisiynydd yng nghyfarfodydd y Panel | Gwyrdd | Mynychodd y Comisiynydd bob un o bum cyfarfod Panel a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn |
| Penodi Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dros Dro | Amh. | Ni fu angen i'r Panel gyflawni'r swyddogaeth hon yn ystod y flwyddyn. |
| Ymdrin â chwynion yn erbyn y Comisiynydd | Gwyrdd | Bu'r Panel yn ystyried a dod i gasgliad ynghylch 2 gŵyn yn erbyn y Comisiynydd yn ystod y flwyddyn. |
| Cefnogi'r Comisiynydd i arfer ei swyddogaethau yn effeithiol | Gwyrdd | Mae'r Panel wedi gwneud 2 ddarn o waith craffu yn ystod y flwyddyn ac wedi cyflwyno argymhellion i'r Comisiynydd. |

# ATODIAD 2 - AELODAU PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS AR GYFER 2024 I 2025

<u>Cyngor Sir Caerfyrddin</u>

Y Cynghorydd Michael Thomas

Y Cynghorydd Karen Davies

Y Cynghorydd Ken Howell

Cyngor Sir Ceredigion

Y Cynghorydd Elizabeth Evans

Y Cynghorydd Wyn Thomas

Y Cynghorydd Keith Evans (Is-gadeirydd)

Cyngor Sir Penfro

Y Cynghorydd Simon Wright

Y Cynghorydd Jonathan Grimes

Y Cynghorydd Dr Simon Hancock

Cyngor Sir Powys

Y Cynghorydd Liz Rijnenberg

Y Cynghorydd Les George

Y Cynghorydd William Powell

Aelodau Cyfetholedig Annibynnol

Mrs. Helen Thomas

Yr Athro Ian Roffe (Cadeirydd)

# ATODIAD 3 - IS-GRWPIAU PANEL YR HEDDLU A THROSEDDU 2024/25

| **IS-GRŴP CYLLID** | **IS-GRŴP PERFFORMIAD** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Keith Evans | Yr Athro Ian Roffe |
| Y Cynghorydd William Powell | Y Cynghorydd William Powell |
| Y Cynghorydd Michael Thomas | Y Cynghorydd Liz Rijnenberg |
| Y Cynghorydd Les George | Mrs. Helen Thomas |
| Y Cynghorydd Simon Hancock | Y Cynghorydd Wyn Thomas |
| Yr Athro Roffe | Y Cynghorydd Jonathan Grimes |
| Y Cynghorydd Elizabeth Evans | Y Cynghorydd Simon Hancock |
| Y Cynghorydd Karen Davies | Y Cynghorydd Ken Howell |
| | Y Cynghorydd Michael Thomas |
| | Y Cynghorydd Simon Wright |